# Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Adroddiad Blynyddol

### Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

nestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Unior
loywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bo
ored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gw
franogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrw
iondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
d yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
ella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gw
franogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrw
iondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloy
d yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Mo
ella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


Rhagair gan y Cadeirydd ... 3

1. Cyflwyniad ... 4

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2025/26 ... 4

    2.1 Rôl Craffu ... 4

    2.2 Y Blaengynllun Gwaith ... 5

    2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ... 6

    2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ... 6

        2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25 ... 6

        2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2026/27 ... 7

        2.4.3 Fersiwn Ddrafft Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Yr Awdurdod Lleol 2024/25 ... 7

        2.4.4 2025/26 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ... 7

        2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ... 8

    2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ... 8

        2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb ... 8

        2.5.2 Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29 ... 8

    2.6 Gwasanaethau Cymdeithasol ... 8

        2.6.1 Gwasanaethau Cynaliadwy Gofal Cymdeithasol i Oedolion ... 8

        2.6.2 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid 9

        2.6.3 Strategaeth Atal Ddrafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin - Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin ... 9

        2.6.4 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref ... 10

        2.6.5 Atal Hunanladdiad ... 10

        2.6.6 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2024-2025 ... 10

    2.7 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ... 10

        2.7.1 Diweddariad am Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ... 10

        2.7.2 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol 2025/27 ... 11

        2.7.3 Strategaeth Cymorth Cynnar ar Gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin 2025-27 11

        2.7.4 Dechrau Egnïol ac Iach (Diweddariad yn dilyn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen) ... 12

3. Gweithgarwch Craffu Arall ... 12

    3.1 Gorchwyl a Gorffen ... 12

    3.2 Ymweliadau Safle ... 12

    3.3 Sesiynau Datblygu ... 12

4. Effaith ... 13

    4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni? ... 13

5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd ... 14

6. Heriau ... 14

7. Gwaith yn y Dyfodol ... 14

8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ........................................................................ 15
9. Presenoldeb ......................................................................................................... 16

## Rhagair gan y Cadeirydd



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025/26.

Mae craffu yn rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan ddarparu her adeiladol, tryloywder ac atebolrwydd. Er nad yw'r Pwyllgor yn gorff gwneud penderfyniadau, mae'n chwarae rôl bwysig fel *cyfaill beirniadol* i'r Cabinet, gan helpu i lunio polisi, gwella perfformiad a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau trigolion Sir Gaerfyrddin.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ystyried ystod eang o faterion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion, gwasanaethau plant a theuluoedd, diogelu, atal, gwasanaethau iechyd integredig a llesiant. Mae aelodau wedi cadw ffocws cryf ar fonitro perfformiad, cynllunio strategol a chynaliadwyedd ariannol ar adeg pan fo gwasanaethau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i wynebu galw sylweddol a phwysau ar y gweithlu.

Mae craffu cyn gwneud penderfyniadau wedi parhau i fod yn nodwedd ganolog o waith y Pwyllgor. Mae'r dull hwn wedi galluogi Aelodau i ddylanwadu ar ddatblygu strategaethau ac adroddiadau allweddol cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet, gan gryfhau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod materion fel trefniadau llywodraethu, amserlenni cyflawni a monitro canlyniadau yn cael eu hystyried yn briodol.

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor am eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'u hymagwedd adeiladol drwy gydol y flwyddyn, ac i gydnabod parodrwydd Aelodau'r Cabinet, swyddogion a sefydliadau partner i ymgysylltu'n agored â'r broses graffu. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Uned Gwasanaethau Democrataidd am y gefnogaeth a ddarparwyd i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

Wrth i ni edrych ymlaen at flwyddyn ddinesig 2026/27, bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ei waith ar y meysydd hynny lle gall craffu ychwanegu'r gwerth mwyaf, cefnogi gwella gwasanaethau a helpu i fynd i'r afael â'r heriau parhaus sy'n wynebu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Aelodau wedi penderfynu rhoi sylw penodol i'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran darparu llety priodol, pwynt mynediad cyntaf at ofal cymdeithasol ac iechyd a gofal cymunedol integredig. Rydyn ni'n parhau i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus y modd y gwneir y gwaith craffu, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a chwarae rôl gadarnhaol o fewn trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

**Y Cynghorydd Gareth John**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu*"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gareth John ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

# 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2025/26

## 2.1 Rôl Craffu

Diweddarwyd cylchoedd gwaith y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth priodol fel y manylir isod:-

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | Cyfiawnder Ieuenctid |
| Gofal Preswyl gan gynnwys cartrefi preswyl mewnol | Heneiddio'n dda |
| Gofal Cartref gan gynnwys gofal cartref mewnol a gwasanaethau ailalluogi | Asesu a Rheoli Gofal |
| Anableddau Dysgu | Pobl Hŷn ac eiddilwch |
| Iechyd Meddwl | Hyrwyddwr Ystyried Pobl Hŷn |
| Taliadau uniongyrchol | Anabledd Corfforol ac Amhariad ar y Synhwyrau |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Integredig gan gynnwys cyswllt â'r GIG a chydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol | Aelod o'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc |
| Gofal Dementia | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | Rhianta Corfforaethol |
| Diogelu ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant | Gwasanaethau Cymorth Cymunedol |
| Diogelu Corfforaethol | Gwasanaethau Maethu |
| Gwasanaethau Mabwysiadu | Seibiant |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | Strategaeth Atal |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | Cefnogi Teuluoedd |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | Anghenion Cymhleth a Phontio |
| Y Blynyddoedd Cynnar, Cymorth i Deuluoedd ac Atal | Gofalwyr |

Yn unol â'i feysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu gymryd mwy o berchnogaeth o'u Blaengynlluniau Gwaith eu hunain, cyflwynwyd dull craffu cyn gwneud penderfyniadau ym mis Medi 2022 sy'n caniatáu i Bwyllgorau Craffu benderfynu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron. Yn ôl y drefn arferol, mae Pwyllgorau hefyd yn gallu nodi eu pynciau eu hunain ac mae'r Cabinet yn dal i allu gwahodd Pwyllgor Craffu i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor 2025/26 a adolygwyd yn rheolaidd. Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Trefnir cyfarfodydd bob 6-8 wythnos i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 6 cyfarfod ffurfiol yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, gall y Pwyllgor hefyd gyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith, ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25

Ym mis Hydref, 2025 bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2024/25 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran 13 Amcan Llesiant y Cyngor, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y pedwar Amcan Llesiant sy'n dod o fewn ei gylch gwaith, sef:

| | |
|---|---|
| **Amcan Llesiant 1** | Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda) |
| **Amcan Llesiant 2** | Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda) |
| **Amcan Llesiant 3** | Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus) |
| **Amcan Llesiant 4** | Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor) |

**Canlyniad:**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 2.4.2 Cynlluniau Busnes Is-adrannol Drafft 2026/27

Ym mis Chwefror 2026, bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Busnes Gwasanaethau Is-adrannol drafft sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ac Addysg a Hamdden ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:-

- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Cymorth Busnes a Chomisiynu
- Gwasanaethau Plant
- Y Gwasanaethau Integredig

Roedd y cynlluniau hyn yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob Is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran a gwneud sylwadau yn eu cylch.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft ar gyfer 2026/27.

### 2.4.3 Fersiwn Ddrafft Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Yr Awdurdod Lleol 2024/25

Yn unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu adroddiad blynyddol ar ddarparu gwasanaethau, perfformiad a chynlluniau gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, ystyriwyd adroddiad gan y Pwyllgor ym mis Mehefin 2025.

**Canlyniad:**

Gofynnwyd i swyddogion ddarparu gwybodaeth a data ychwanegol yn ymwneud â'r Gymraeg er mwyn ei gynnwys yn yr adroddiad.

Nodwyd hefyd fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am waith yr Awdurdod mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, a gofynnwyd i swyddogion ehangu ar y maes hwn.

### 2.4.4 2025/26 - Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu hystyried gan y pwyllgor fel a ganlyn:

- Hydref 2025 - Monitro Perfformiad Chwarter 1 (01/04/25 - 30/06/25)
- Chwefror 2026 - Monitro Perfformiad Chwarter 2 (01/04/25 - 30/09/25)

Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig sydd wedi'i ymgorffori yn Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw

bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

#### 2.4.5 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor, roedd Aelodau'r Pwyllgor wedi nodi a gofyn am wybodaeth ychwanegol i'w cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau craffu yn effeithiol. Dosbarthwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor drwy e-bost, gan amlinellu'r cynnydd a wnaed mewn ymateb i'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2025; a
- Hydref 2025 - Adroddiad Alldro y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25
- Tachwedd 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2025.
- Chwefror 2026 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2025.
- Mawrth 2026 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2025.

Roedd yr adroddiadau yn galluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a’r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

### 2.5.2 Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf presennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2027/2028 a 2028/29.

**Canlyniad:**

Fel rhan o ymgynghoriad eang yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Strategaeth y Gyllideb Refeniw 2026/27, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a phenderfynodd dderbyn y strategaeth gyllideb refeniw, y cynigion ar gyfer cyflawni arbedion effeithlonrwydd a'r crynhoad taliadau ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2.6 Gwasanaethau Cymdeithasol

### 2.6.1 Gwasanaethau Cynaliadwy Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Ym mis Mehefin 2025 derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Gwasanaethau Cynaliadwy Gofal Cymdeithasol i Oedolion a ddarparodd drosolwg lefel uchel o'r pwysau yn ôl demograffig,

materion cynaliadwyedd y farchnad a heriau'r gweithlu ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a phobl hŷn ynghyd â'r goblygiadau ariannol posibl i'r Awdurdod.

**Canlyniad:-**

Nododd y Pwyllgor effaith bosibl y pwysau yn sgil y galw gan y boblogaeth ar y broses o osod cyllideb y Cyngor yn y dyfodol, ynghyd â'r goblygiadau refeniw parhaus sy'n deillio o hynny.

### 2.6.2 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Ym mis Mehefin 2025, adolygodd y Pwyllgor yr adroddiad a oedd yn manylu ar y rôl, y swyddogaethau a'r gweithgareddau a wnaed gan yr Awdurdod mewn perthynas â Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/25.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

### 2.6.3 Strategaeth Atal Ddrafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin - Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

Ym mis Tachwedd 2025, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Atal Ddrafft - Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y Strategaeth yn nodi gweledigaeth ddengmlynedd i ymgorffori atal ac ymyrraeth gynnar wrth wraidd gwasanaethau iechyd a llesiantledled Sir Gaerfyrddin, gyda'r nod o symud y ffocws o ofal adweithiol i gymorth rhagweithiol, cymunedolsy'n grymuso unigolion ac yn cryfhau gwytnwch ar draws pob grŵp oedran.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y Strategaeth ar ffurf drafft a gofynnodd iddi gael ei diweddaru a'i dychwelyd at sylw'r Pwyllgor er mwyn ei hystyried ymhellach.

Ym mis Mawrth 2026, ystyriodd y Pwyllgor fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Atal Ddrafft, a oedd wedi'i diwygio mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor a wnaed ym mis Tachwedd 2025. Nodwyd bod y trefniadau llywodraethu ac adrodd yn parhau i fod yn aneglur, a gofynnwyd i strwythur llywodraethu clir gael ei ymgorffori yn y Strategaeth cyn iddi gael ei ystyried gan y Cabinet.

**Canlyniad:**

**Mis Tachwedd**

1. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid adolygu'r adroddiad i gynnwys manylion ynghylch yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer cyflawni fesul cam.
2. Gofynnodd y Pwyllgor i'r camau nesaf a'r heriau cysylltiedig gael eu hamlinellu'n glir yn y strategaeth.
3. Gofynnodd y Pwyllgor i'r strategaeth sydd wedi'i diweddaru gael ei hadolygu gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn ei chyflwyno i'r Cabinet.

**Mawrth**
1. Penderfynwyd argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r strategaeth yn amodol ar gynnwys strwythur monitro, adrodd a llywodraethu clir.

#### 2.6.4 Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref

Ym mis Tachwedd 2025, bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr adroddiad Diweddaru'r Perfformiad Gofal Cartref. Nododd y Pwyllgor fod gwelliant wedi bod yn y 4 prif fetrig, gyda'r oriau a gomisiynwyd yn dychwelyd i rywbeth tebyg i'r hyn oeddent cyn y pandemig. O ganlyniad, roedd twf cyffredinol wedi bod yn nifer yr oriau a gomisiynwyd ar gyfer gofal cartref, a thaflwybr o lai o oriau a llai o bobl yn aros ar draws y gymuned.
Ym mis Mai 2026, bu'r Pwyllgor yn craffu ar yr ail o ddau adroddiad ynghylch Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref yn ystod blwyddyn y cyngor.

**Canlyniad:**

1. Tachwedd - nododd y Pwyllgor y diweddariad ar y perfformiad.
2. Mai - nododd y Pwyllgor y diweddariad ar y perfformiad.

#### 2.6.5 Atal Hunanladdiad

Ym mis Chwefror 2026, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i atal hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin.

**Canlyniad:**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.

#### 2.6.6 Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2024-2025

Ym mis Mawrth 2026, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu'r cynnydd a oedd wedi'i wneud mewn perthynas â'r canlyniadau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'r Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer 2024-25.

**Canlyniad:**

Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth Gorllewin Cymru 2024-2025.

### 2.7 Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

#### 2.7.1 Diweddariad am Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Ym mis Hydref 2025, bu'r Pwyllgor yn adolygu'r diweddariad gan nodi y llwyddwyd i ostwng nifer y staff asiantaeth a ddefnyddiwyd.

Ym mis Chwefror 2026, adolygodd y Pwyllgor y diweddariad a nododd fod adolygiad ym mis Tachwedd 2025 wedi arwain at leihau amlder cyfarfodydd y bwrdd a'r adroddiadau.

**Canlyniad:**

1. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad a gofynnodd am gael adroddiadau diweddaru rheolaidd am gynnydd ym mlwyddyn y cyngor 2026/27.

2. Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai nodi'r pryderon a godwyd gan y pwyllgor ynghylch lleihau amlder adroddiadau.

### 2.7.2 Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol 2025/27

Ym mis Tachwedd 2025, bu'r Pwyllgor yn adolygu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2025/27. Roedd y Cynllun wedi'i ddatblygu a'i gytuno gyda phartneriaid cyfiawnder ieuenctid ac wedi'i gynllunio'n unol â'r Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid a gyhoeddwyd yn ddiweddar: Canllawiau Ymarfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Mawrth 2023) a'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid.

**Canlyniad:**

1. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet adolygu'r trefniadau cyllido presennol ac ystyried cynnydd yn y cyllid craidd a ddyrannir i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

2. Gofynnodd y Pwyllgor bod yr adroddiad yn cael ei ddiweddaru i gynnwys data ategol am y gwaith a wnaed i fodloni'r rhwymedigaethau statudol i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

### 2.7.3 Strategaeth Cymorth Cynnar ar Gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin 2025-27

Ym mis Mawrth 2026 bu'r Pwyllgor yn gwerthuso'r ddogfen Strategaeth Cymorth Cynnar ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin 2026-27. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r dull o ddarparu Cymorth Cynnar ac yn nodi'r weledigaeth i ymyrryd yn gynnar i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd. Dangosodd yr adroddiad Cysylltu Teuluoedd y manteision cost sylweddol o'r dull Cymorth Cynnar, gan gynnwys osgoi costau a ragwelir ar gyfer 2025 a'r potensial ar gyfer arbedion cost yn y dyfodol ar draws y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

**Canlyniad:**

1. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Cymorth Cynnar ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin 2025-27 a'r;
2. adroddiad Cysylltu Teuluoedd: Cymorth Aml-Asiantaeth Dwys ar Unwaith ar gyfer Pobl Ifanc 14-18 a'u Teuluoedd.

### 2.7.4 Dechrau Egnïol ac Iach (Diweddariad yn dilyn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen)

Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r camau gweithredu a oedd yn deillio o'r adroddiad *Dechrau Egnïol ac Iach* y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

**Canlyniad:**
Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad a gofynnodd am ddiweddariadau pellach bob 6 mis.

## 3. Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26.

### 3.2 Ymweliadau Safle

Nid oedd y Pwyllgor wedi cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26.

### 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 19/06/25 | Hyfforddiant Gorfodi Rheolau Cynllunio |
| 09/07/25 | Proses Cyhoeddusrwydd Cynllunio |
| 17/07/25 | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| 23/07/25 | Sesiwn Ymwybyddiaeth a Strategaeth Deallusrwydd Artiffisial |
| 01/08/25 | Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwasanaethau Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 10/09/25 a 12/11/25 | Sesiynau galw heibio system e-ddysgu Thinqi |
| 12/11/25 | Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi |
| 03/12/25 | Diweddariad ynghylch y Cynllun Gwasanaethau Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. |
| 10/12/25 | Diweddariad Blynyddol gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru cyn pennu'r gyllideb |
| 07/01/26 | Hyfforddiant Tân |
| 05/02/26 a 11/02/26 | Atal aflonyddu rhywiol yn y gweithle |
| 20/02/26 | Sesiwn Briffio ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| 04/03/26 | Diwrnod y Lluoedd Arfog |
| 09/03/26 | Gwelliannau i'r A48 |
| 16/03/26 | Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, aeth yr aelodau i sawl seminar ar y gyllideb fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2026-27 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol hefyd:

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 24/07/25 | Sesiwn Ymwybyddiaeth am y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| 02/02/26 | Llesiant Delta |
| 22/04/26 | Blaen-gynllun |

# 4. Effaith

## 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr anweithredol eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet.  Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae Craffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Hefyd mae'r broses graffu yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn rhoi cyfle i bob Pwyllgor Craffu roi mewnbwn cyn i'r adroddiadau gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl.  Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, mae'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys y canlynol:-

- gofyn i'r Cabinet adolygu'r trefniadau cyllido presennol ac ystyried cynnydd i'r cyllid craidd a ddyrannwyd i'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid.
- cynnal goruchwyliaeth o Raglen Drawsnewid y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r gyllideb
- gofyn am ddiweddaru'r Strategaeth Atal Ddrafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin - Byw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin i gynnwys manylion am amserlenni cyflawni disgwyliedig, ynghyd

â fframwaith monitro, adrodd a llywodraethu clir, cyn ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo.

- argymell bod Adroddiad Blynyddol Drafft Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2024/25 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am waith yr Awdurdod mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod 2025/26, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori â'r cyhoedd/cynnwys y cyhoedd.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:-

Craffu - Cyngor Sir Caerfyrddin

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd Is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan fynd ati i hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd, trwy ystod o sianeli, i ymgysylltu â'r broses Graffu ac i godi unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Roedd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, a'r Adran Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn parhau i brofi pwysau sylweddol trwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i'r galw parhaus ar wasanaethau. Serch hynny, addaswyd a datblygodd yr adrannau atebion arloesol mewn ymateb i amgylchiadau digynsail i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn Sir Gaerfyrddin.

Parhaodd y Pwyllgor i fabwysiadu dull adeiladol yn ei rôl o graffu ar berfformiad, sydd wedi cefnogi meysydd gwasanaeth ac wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng cyflawni ei gyfrifoldebau craffu ac osgoi unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng flaen.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod blwyddyn y cyngor a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar y pynciau hynny lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Er mwyn sicrhau'r

defnydd mwyaf effeithiol o amser y cyfarfodydd, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i gymhwyso egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i gefnogi proses graffu syml a phenodol.

Bydd rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2026/27 yn cael ei hystyried mewn sesiwn cynllunio datblygu ar 22 Ebrill a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd trwy fonitro'r Blaengynllun Gwaith yn barhaus.

Er mwyn cryfhau swyddogaeth graffu'r Awdurdod ymhellach, bydd Aelodau'n parhau i gymryd rhan mewn sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor swyddogion lle bo hynny'n briodol, ac yn gwneud defnydd effeithiol o drafodaethau anffurfiol cyn y cyfarfod.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Is-adran y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [Craffu - Cyngor Sir Caerfyrddin].

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o **chwe** chyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Bryan Davies | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Crish Davies (hyd at 03/03/26) Ailymunodd 13/05/26 | 3 | 50 |
| Y Cynghorydd Karen Davies | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Michelle Donoghue | 4 | 66 |
| Y Cynghorydd Alex Evans | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Meinir James | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Gareth John | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Hefin Jones (hyd at 12/11/25) | 0 | 0 |
| Y Cynghorydd Denise Owen | 5 | 83 |
| Y Cynghorydd Louvain Roberts | 4 | 66 |
| Y Cynghorydd Russell Sparks (ymunodd 12/11/25) | 4 | 66 |
| Y Cynghorydd Fiona Walters | 4 | 66 |
| Y Cynghorydd Phil Warlow | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Janet Williams | 6 | 100 |
| Y Cynghorydd Steve Williams | 5 | 83 |

| Dirprwyon | Cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Y Cynghorydd Tyssul Evans | 1 |
| **Aelodau'r Cabinet** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** |
| Y Cynghorydd Jane Tremlett (Iechyd Integredig a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion) | 6 |
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 3 |